# papur priordy

**NEFOL DAD, MAE ETO'N NOSI,**
**GWRANDO LEF EIN HWYROL WEDDI,**
**NID YW'R NOS YN NOS I TI;**
**RHAG EIN BLINO GAN EIN HOFNAU,**
**RHAG POB NIWED I'N HENEIDIAU,**
**YN DY HEDD, O CADW NI.**

**George Rawson. Efelychiad Elfed**
**Caneuon Ffydd- 44**

***Dewiswyd gan Ifor Evans, Parc y Bryn. Gweler ei reswm am y dewis y tu mewn***

**Rhifyn 301**
**PAPUR MEHEFIN 2017**

## GAIR GAN EIN GWEINIDOG

### MANCEINION

***DIHUNODD*** y byd fore Llun, 22 Mai i’r newyddion am ymosodiad terfysgol gan hunanfomiwr yng nghyntedd yr Arena ym Manceinion. Lladdwyd 22, yn cynnwys plant a phobl ifanc, ac anafwyd 59.



Fel adwaith i’r digwyddiad, daeth trigolion dinas Manceinion ynghyd mewn cyfnod o argyfwng mawr a dangos cryfder rhyfeddol wrth gefnogi’i gilydd gan ddiystyru ffiniau crefyddol ac ethnig.

Derbyniwyd negeseuon cefnogaeth o bedwar ban byd a bu’r ddinas ynghyd â’r teuluoedd a effeithiwyd gan y trasiedi ar feddyliau pawb.




Cefais gryn syndod o weld ar un wefan gymdeithasol ddarlun o fom a oedd yn eiddo i’r Awyrlu a’r geiriau ‘*with love from Manchester*’ wedi’u hysgrifennu arno. Bu peth amheuaeth ar y cychwyn a oedd y llun yn un dilys, ond daeth cadarnhad o’r Weinyddiaeth Amddiffyn ei fod yn ddilys.

Gwn fod adwaith i drasiedi o’r fath yn gallu ysgogi pob math o deimladau. Ond ai peth doeth oedd ysgrifennu’r cyfarchiad hwn ar fom yn enw dinas a oedd yn gwneud ei gorau glas i sefyll yn gadarn yn wyneb digwyddiad a’i siglodd i’w seiliau?
Ai gosod enw’r ddinas ar arf sy’n dinistrio a lladd yw’r adwaith orau?



Mae Manceinion mewn galar. Ai’r alwad yw am gymod, neu am fwy eto o derfysg?

Trawodd Martin Geraint nodyn emosiynol iawn yn yr oedfa ar fore Sul cyntaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-bont wrth ein hatgoffa am ran o arwyddair yr Urdd, bod angen gweddïo dros gyd-ddyn gan feddwl yn arbennig am y rhai a ddioddefodd wedi ymosodiad Manceinion.

***GWELL*** o lawer fod enw Manceinion wedi'i ysgifennu yn ein gweddïau, yn hytrach nag ar fom.

## GWEDDI DROS FANCEINION








**Dad Trugarog. Cysura bawb gafodd eu heffeithio gan y terfysg yn Manceinion.**

**Pob un gollodd berthynas a ffrind.Pob un a anafwyd.**

**Pob un a ymatebodd i helpu.**

**Pob un sy'n fwy ofnus heddiw o'i gymharu â ddoe.**

**Pob un sy'n cynnig arweiniad.**

**Pob un sy'n chwilio am atebion.**

**Rho nerth a oleuni i'r rhai sy wedi'u gwanhau ac wedi'u cau gan dywyllwch.**

**AMEN**

## DIOLCH YN FAWR

**Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad**

**DELYTH A'R TEULU**
***Heol y Prior***
**Er cof am Ennis**

**JOHN A MURIEL GIBBY**
***Awel y Coed, Llanllwch***

**IRENE WILLIAMS**
***Tir Ysgawen, Llangynnwr***
**at gyhoeddi'r Papur y mis hwn**

**MIC (MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL)**

# BWRLWM BRO

***Dydd Sul 11 Mehefin 2017***
***Yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin***
***10.30-11.45***
***Ar gyfer plant 4-12 oed***
***Awr a mwy o hwyl gyda Neges Gristnogol***
***Am fanylion pellach cysyllter â Nigel Davies ☎01994 230049***
***mic@uwclub.net***

**MIC (MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL)**
**MABOLGAMPAU DAN DO**
**YSGOLION SUL A CHLYBIAU CRISTNOGOL**

**Oedran Meithrin hyd at B6**
**Nos Fercher 21 Mehefin 2017**
**Canolfan Hamdden Caerfyrddin**



**Rowndiau Terfynol y Sir gan gynnwys B7-13**
**Canolfan Hamdden Caerfyrddin**
**Nos Fercher 12 Gorffennaf 2017**

***Dewch ynghyd i gefnogi`r plant a`r bobl ifanc ac i fwynhau nosweithiau o gystadlu a chymdeithasu. Dechrau am 6:00***

***Cyswllt : Nigel Davies ☎01994 230049.***
***E-bost: mic@uwclub.net***

# DIWRNOD AMGYLCHEDD Y BYD

***5 Mehefin 2017***

***BOB BLWYDDYN*** ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd nod y Cenhedloedd Unedig yw codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a'r sialensiau rydym yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Dechreuwyd dathlu Diwrnod Amgylchedd y Byd ym 1972 ac mae wedi datblygu i fod yn un o brif gyfryngau'r Cenhedloedd Unedig i symbylu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ar raddfa fyd-eang ac i hyrwyddo sylw a gweithredu gwleidyddol.

Canada sy'n noddi'r diwrnod eleni a'r neges yw Cysylltu Pobl â Natur – yn y ddinas ac ar dir, o'r pegynau hyd y cyhydedd.

Mae'r neges yn galw arnom i fynd allan ac i fyd natur, i werthfawrogi'i harddwch a'i bwysigrwydd ac i ymestyn y galw arnom i amddiffyn y ddaear yr ydym yn ei rhannu.

Mae llywodraethau dilynol Canada wedi symud i amddiffyn yr amgylchedd. Er enghraifft, ers sefydlu parc cenedlaethol cyntaf Canada yn Banff ym 1885, crëwydd mwy na 40 o barciau cenedlaethol newydd yn y wlad.

Yn rhyngwladol, bu Canada'n arweinydd yn yr ymdrechion i amddiffyn bioamrywiaeth ac i ymladd newidiadau yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn flaengar yn datblygu ynni glân.

***BYDD*** Diwrnod Amgylchedd y Byd yn rhan bwysig o ddathliadau pen-blwydd Canada yn 150 oed. Mae'n cynnwys mynediad rhad ac am ddim i'w barciau cenedlaethol drwy 2017.



# Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL
## *Nos Lun, 8 Mai 2017*

***YN Y*** Gymdeithas ym Mai roedd y darnau'n trafod agweddau ar feddygaeth a byd plant a ddewisodd Gareth Gravell i'w darllen ar y dechrau, y naill o Lyfr yr Apocryffa a'r llall o'r Efengyl yn ôl Marc, yn gweddu i'r dim o ystyried arbenigedd y siaradwr gwadd, y Dr Dewi Evans, Heol Bronwydd Caerfyrddin



Yn dilyn gweddi, nododd ein Gweinidog yn ei chyflwyniad fel y dringodd y Dr Dewi i frig ei broffesiwn fel meddyg plant blaenllaw yn Abertawe. Mae bellach yn gweithredu fel Ymgynghorydd Pedriatig Annibynnol ac yn llais a wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau'n trafod materion meddygol. Yn Gymro i'r carn, mae'n ymddiddori ym mhob agwedd ar fywyd ein cenedl, yn arbennig gwleidyddiaeth.

Mewn sgwrs hynod o ddifyr a llawn gwybodaeth soniodd sut y daeth i arloesi mewn meddygaeth plant yn Abertawe a hynny mewn cyfnod pan oedd arbenigedd yn y maes hwnnw yng Nghymru'n brin iawn. Trawiadol oedd clywed am y modd y llwyddwyd i ddatblygu gofal am fabanod newydd eu geni yn Abertawe gan ddod â gobaith newydd i sawl teulu. Clywsom hefyd fel mae gofal diabetes pediatrig ar gyfer plant wedi gwneud camau breision yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn. Datblygodd Wardiau'r Plant a'r Uned Asesu Pediatrig yn Abertawe i fod ymhlith y blaenaf yng Ngwledydd Prydain – diolch i arloesedd y Dr Dewi a'i gydweithwyr.

Hawdd dychmygu fel y gall bywyd meddyg ymgynghorol mewn ysbyty fod yn un digon dwys ac unig ar lawer cyfrif ond roedd byw yn yr Alltwen yng Nghwm Tawe'n feddyginiaeth go iawn i'r Dr Dewi! Siaradodd ag asbri am y modd y ffurfiodd gysylltiadau â chymdeithas werinol y Cwm a chael y cyfle i fod yn rhan o ymgyrch lwyddiannus i ledaenu addysg Gymraeg ac addysg drydyddol yn yr ardal.

Mae'i waith bellach fel Ymgynghorydd Pedriatig Annibynnol yn ei gymryd i sawl man. Fel y dywedodd - o Galway i Swydd Essex ac o Inverness i Gernyw!  Nid yw llysoedd barn a bargyfreithwyr yng Ngwledydd Prydain a thu hwnt yn ddieithr iddo ychwaith wrth iddo ymgynghori a chyflwyno tystiolaeth ac ati yn rhinwedd ei waith.

Yn wir, mae'r Dr Dewi yn dipyn o deithiwr ac yn credu'n mai drwy fynd i wahanol wledydd a phrofi gwahanol ddiwylliannau y down i'w deall a'u gwerthfawrogi orau.  Ei hoff wlad yw De Affrica, gwlad y mae wedi ymweld â hi ar fwy nag un achlysur Yn arbennig o ddiddorol oedd deall fel mae ymdrechion i leihau'r clefyd HIV wedi bod mor llwyddiannus yno a hynny o fewn amser cymharol fyr.

Cyffyrddodd â phwnc Camdrin Plant a chynigiodd sawl ffordd ymlaen i leihau'r posibilrwydd o roi plentyn mewn perygl. Pwysleisiodd mor allweddol yw'r elfen gymdeithasol a pherthynas frawdol yn y cyswllt hwn -  nodweddion cryf o hyd mewn rhannau o'r Gymru Gymraeg er enghraifft.

Wrth orffen,  cawsom farn y Dr Dewi am gyflwr y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru heddiw  A dywedodd ddigon wrthym i awgrymu'n gryf y byddai'n talu ffordd i Lywodraeth Cymru roi clust i'r gwahanol syniadau ymarferol sydd ganddo i gryfhau a datblygu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn ymhellach.

***YMATEBODD*** y Dr Dewi i ambell gwestiwn cyn i'n Gweinidog ddiolch iddo am noson gyfoethog iawn a dirwyn y cyfarfod i ben gyda gair o weddi. Ni ddiflannodd pawb am sbel wedyn, cofiwch, a bu cyfle pellach i sgwrsio â'r siaradwr gwadd dros baned.  Mae'n diolch hefyd i'r merched am y paratoi a'r gweini ac i David Lloyd am ofalu am y casgliad.

**OEDFA DDINESIG YN Y PRIORY**
**Bore Sul,11 Mehefin 2017 – 10 o'r gloch**
***yng ngofal***
**Y PARCHEDIG BETI-WYN JAMES**
**CAPLAN Y MAER, Y CYNGHORYDD ALUN LENNY**
**A'R FAERES ANN LENNY**
***Croeso cynnes i bawb***



## RHANNAU DECHREUOL CYFARFOD RHWYDWAITH MERCHED YR ANNIBYNWYR



## CROESAWU EMYR THOMAS YN AELOD NEWYDD



**Eirlys Jones…**

## RHWYDWAITH UNDEB YR ANNIBYNWYR.
### *Capel y Priordy Caerfyrddin Bore Sadwrn 6 Mai 2017*

***SEFYDLWY***d y Rhwydwaith Merched gyda golwg ar y tri nod o Addysgu, Gwasanaethu ac Ymgyrchu i gefnogi'r ymgyrch *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.* Y bwriad yw rhoi cyfle i ferched ledled Cymru fod yn rhan o weithredu ar raddfa genedlaethol a chyfarfod yn flynyddol i wrando ar syniadau o wahanol ardaloedd.

Diolch i'r Parchedig Beti-Wyn am drefnu'r ymweliad ac i bedair o wragedd ieuainc y Priordy am gymryd at y rhannau arweiniol.



Y siaradwr gwadd oedd Arfon Jones sy'n adnabyddus am ysgrifennu beibl.net, aralleiriad diweddar a chwbl wreiddiol o'r Beibl. Trafododd rôl merched yn yr Eglwys, a'r rhagfarnau na ddylent gael lleisio barn.Ond dangosodd fod yr Ysgrythur yn brawf o barch Iesu Grist a Paul at y gwragedd.Soniodd fod agwedd Iesu'n groes i'r disgwyliad ac yn radical.

Wedi coffi esboniodd y Parchedig Jill Hayley Harries bod Undeb yr Annibynwyr drwy gyfrwng y Rhwydwaith Merched yn dymuno cefnogi'r ymgyrch o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Yn ei ail astudiaeth Feiblaidd soniodd Arfon Jones bod ein capeli yn gymunedau Cymraeg naturiol ac anogodd eglwysi i gynnal digwyddiadau neu adeiladu ar weithgaredd sydd eisioes yn bod er mwyn meithrin siaradwyr Cymraeg, er enghraifft gwahodd dysgwyr i'w plith a chynnal bore coffi er mwyn meithrin eu hyder a chreu perthynas â nhw.Teimlwyd mai ymateb yn ymarferol yw rôl eglwysi yn yr ymgyrch hon.

Rhaid cydnabod cyfraniad aruthrol Cristnogaeth a'r capeli Cymraeg dros y canrifoedd i'r iaith Gymraeg. Ond ai lle'r eglwys yw achub iaith?

***TRWY*** astudiaeth Feiblaidd gofiadwy iawn fe'n harweinwyd gan Arfon drwy'r Ysgrythur i weld bod Duw yn malio am yr iaith ac felly bod angen adlewyrchu gwerthfawrogiad o'r iaith heddiw.Os yw Crist yn Arglwydd ar gwpwl mae e'n Arglwydd ar y cwbl.

**DEWIS IFOR EVANS**
***Gweler y tudalen blaen***



***Nefol Dad, mae eto'n nosi*** **oedd dewis Ifor. Mae'n emyn poblogaidd a llawer o ganu arno, yn enwedig y pennill cyntaf, wrth ddiweddu oedfaon y Sul. Mae'n hoff emyn gan Ifor ac yn un y bydd yn ei ganu'n rheolaidd bob nos cyn noswylio.**

**Diolch i Ifor am rannu'r profiad hwn â ni.**

## SUL SBESIAL 2017



**9 Gorffennaf 2017 – 10.30**
**Neuadd Pontyberem**

**Oedfa Deuluol i holl Gristnogion Cymraeg Sir Gâr**

**BYW'R BEIBL**

**Dr Owain Edwards a'i griw o Goleg y Bala**
**Pobl Ifainc Capel Newydd Llandeilo**

**Paned a Phice bach i ddiyn – a Stondiau**

**Mynediad am ddim  Casgliad at Cymorth Cristnogol**

**Os ydych yn teithio mewn car, bydd bws wennol i'ch cludo o'r Maes Parcio ger y Parc**

**DEWCH I DDATHLU EIN FFYDD!**

***Trefnir gan Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid Sir Gâr***

**AR Y WE:   www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

## CYNLLUN Y FFORDD




***FE*** glywn byth a hefyd am brinder gweinidogion a phregethwyr y dyddiau hyn. Clywn hefyd am anhawster llawer o gapeli i lanw'r pulpud ar y Sul. Ar brydiau, bydd ysgrifenyddion gwahanol gapeli ar draws yr enwadau bron â bod yn cystadlu â'i gilydd i gael gafael ar yr un pregethwyr! Mae'n sgrech ambell dro, yn enwedig os oes pregethwr yn torri cyhoeddiad ar y munud olaf!

Ein dymuniad ni oll, mae'n siŵr, yw croesawu pregethwyr atom a diolch iddyn nhw am eu gwasanaeth. Ond tybed mewn gwirionedd a oes angen gofidio i'r fath raddau os nad yw hyn yn bosibl ambell dro? Mae toreth o bosibiliadau ar gael yn awr i'n helpu ar y Sul ac yn ystod yr wythnos o ran hynny. Un ohonynt yw *Cynllun y Ffordd*.

Daw *Cynllun y Ffordd* o stabl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ei fwriad yw '*helpu pobl i drafod themâu Cristnogol, er mwyn cryfhau eu ffydd a'u hyder, a'u galluogi i rannu'r Efengyl ac ymestyn allan i'w cymunedau'*.

Mae'n gynllun sy'n ymestyn dros bedair blynedd gyda phedair rhan i bob blwyddyn. Nid yw wedi'i gwblhau'n llwyr eto. Mae'n thematig ei naws gyda phob rhan yn cynnwys DVD a chyfle i aelodau mewn grwpiau bach ymateb i'r hyn sydd yn y fideo a thrafod y Beibl ymysg ei gilydd. Mae digon o ddeunyddiau print ac awgrymiadau o gwestiynau i'w trafod wedi'u paratoi i gydfynd â'r Cynllun. Mae hyn oll yn golygu nad oes angen i'r sawl sy'n trefnu oedfa neu gyfarfod ofidio am orfod ymchwilio neu baratoi'n fanwl ar gyfer cyflwyno'r Cynllun.

***RHAID*** dweud i'r Cynllun dderbyn croeso brwd gan gynrychiolwyr o wahanol gapeli Dosbarth Myrddin yng Nghyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yn y cyfarfod cychwynnol a gynhaliwyd i'w gyflwyno yn Heol Awst ar Nos Fercher 24 Mai 2017. Roedd y cyflwyniad yng ngofal y Parchedig Beti-Wyn James a gymerodd thema enghreifftiol o'r Cynllun, yn cynnwys DVD a chwestiynau, i'r pwrpas hwn. Esgorodd ar drafodaeth ddiddorol. Gwelwyd potensial defnyddio'r Cynllun yn y capel neu hyd yn oed gyda grwpiau bach ar yr aelwyd. Cafwyd awgrym cryf y bydd rhagor o gapeli'n manteisio ar y Cynllun byw a chyffrous hwn sydd eisoes ar waith mewn sawl man.
Diolch amdano.

# PROFFIL



| | |
|---|---|
| ENW | Dewi Llŷr Snelson |
| | |
| MAN GENI | Llanelwy |
| | |
| CAPEL PLENTYNDOD | Capel y Fron, Dinbych |
| | |
| BYW NAWR | Trem y Coleg, Caerfyrddin |
| | |
| TEULU | Sioned (Y wraig), 3 o blant (Caleb, Gwilym ac Osian) |
| | |
| GWAITH | Prif Weithredwr, Menter Gorllewin Sir Gâr |
| | |
| GWYLIAU GORAU HYD YMA | Mis Mêl yn Efrog Newydd. |
| | |
| HOFF BLOG | Y Cneifiwr – sylwadau craff am wleidyddiaeth leol. |

| | |
|---|---|
| **FY ARWR** | **Haile Gebrselassie. Y rhedwr gorau erioed. Fe dorrodd 27 record byd dros gyfnod o 25 mlynedd.** |
| | |
| **FY NGHAS BETH** | **Pan fydd Everton yn colli.** |
| | |
| **HOBI** | **Wrth fy modd gyda phob math o chwaraeon ond rhedeg ydy'r hobi fwyaf. Wrth fy modd yn cael mynd i redeg a chael cyfle i feddwl a chadw'n heini.** |
| | |
| **HOFF ADNOD** | **O beibl.net - Mathew 6:34**<br>***Felly, peidiwch poeni am fory, cewch groesi'r bont honno pan ddaw. Mae'n well wynebu problemau un dydd ar y tro.*** |
| | |
| **PERSON CATH NEU GI** | **Ddim yn berson cath na chi ond os oes rhaid dewis un, cath. Dwi ofn cwn yn ofnadwy.** |
| | |
| **PRIF GWRS GORAU** | **Pastai bwthyn.** |
| | |
| **CAR** | **Renault Grand Scenic – Digon o le i'r plant a phob math o sothach.** |
| | |
| **SIOP ORAU** | **Unrhyw siop nwyddau rhedeg.** |
| | |
| **YR OLYGFA ORAU YN Y BYD** | **Edrych i lawr ar Ddyffryn Clwyd o ben Moel Famau. Dyffryn hardd iawn.** |
| | |
| **HOFF RAGLEN DELEDU** | **Match of the Day.** |
| | |
| **Y WLAD NEU'R DRE I CHI** | **Tref mewn ardal wledig! Rhywle fel Dinbych neu Gaerfyrddin.** |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **FY UCHELGAIS** | **Cap i Gymru ond efallai yn 37 oed bod y cyfle yna wedi hen ddiflannu bellach.** |
| | |
| **BLE HOFFECH CHI FOD YN BRY AR Y WAL** | **Stafell newid Cymru cyn gêm bêl-droed ryngwladol.** |

## Y BEDYDDWYR YN DATHLU!

**Dydd Sadwrn 17 Mehefin 2017 – 10 hyd 4.30**

**Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin**

***Undeb Bedyddwyr Cymru'n dathlu 150 o flynyddoedd. Gwahoddiad agored i bawb ddod i'r parti!***




**Digwyddiad arbennig i'r teulu cyfan. Digon o weithgareddau cyffrous i bobl o bob oed yn cynnwys:**

- **Sioe arbennig gan Arosfa**
- **Addoliad cyfoes gyda Martin Geraint**
- **Gemau 'zorbiau'**
- **Gweithgareddau celf a chrefft**
- **Parti Pitsa i'r ieuenctid**

**Y cyfan yn rhad ac am ddim**

## PARC MYRDDIN – 17 Mehefin 2017 – 11.00-16.00

**Digwyddiad i gofio bywyd Jo Cox.**

***Cyfle i bobl Caerfyrddin ddod at ei gilydd, boed yn Gristion, Iddew neu Fwslim, ddu neu'n wyn, hen neu'n ifanc, yn hoyw neu beidio, abl neu'n anabl, Cymro, Sais, Somali neu'n Bacistani a mwynhau cwmni'n gilydd, cerddoriaeth a phaned o de.***

**Cyswllt – Mared Wyn Owen, un o'n pobl ifainc**

# CARINA A BETSAN YN DISGLEIRIO!



Daeth profiad arbennig yn ddiweddar i ran Carina Sidhu a Betsan Elias, dwy o ferched y Priordy.



Roeddent yn aelodau o Dîm, Merched Ysgol Bro Myrddin Dan 13 *(gweler y llun uchod)* a ddewiswyd i gynrychioli CPD Dinas Abertawe mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan yr Uwch Gynghrair yn Stamford Bridge, cartref Tîm Pêl-droed Chelsea.

Ac nid yno am y profiad yn unig roedd y merched, mae'n amlwg, gan iddynt guro Dinas Manceinion a Sunderland a dod yn ail yn eu grŵp!

Cawsant deithio i Lundain ar fws moethus CPD Dinas Abertawe a derbyniodd pob un ohonynt git Abertawe i'w gadw a llond bag o amryw bethau!




## E Wyn James yn sôn am Bantycelyn:



Un o gewri mwyaf Cristnogaeth Gymraeg yw William Williams. Roedd yn awdur cynhyrchiol dros ben.

Lluniodd yn agos i fil o emynau, ac mae nifer ohonynt yn parhau i gael eu canu'n gyson bob wythnos ymhob rhan o Gymru.Er bod rhai o emynau Pantycelyn yn dal yn gyfarwydd i lawer, mae'r rhan fwyaf o'i weithiau yn ddieithr i Gristnogion Cymru heddiw.

Ysgrifennodd Williams hefyd bob math o weithiau eraill, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith, ar bynciau amrywiol iawn.



Yr hyn sy'n uno holl weithiau Williams Pantycelyn yw eu bod wedi eu bwriadu i helpu pobl i fyw'r bywyd Cristnogol o ddydd i ddydd.

Cynorthwyo pobl i foli Duw a mynegi eu teimladau a'u profiadau oedd diben ei emynau. Mewn gweithiau eraill mae'n trafod sut i ymddwyn wrth addoli a sut mae dadansoddi a dilysu profiadau ysbrydol. Mae gweithiau eraill yn disgrifio mawredd ac amrywiaeth y greadigaeth, tra bo eraill yn trafod yr heriau a'r sefyllfaoedd amrywiol sy'n wynebu Cristnogion ar eu taith trwy'r byd: gwyriadau diwinyddol, problemau priodasol, sut i drin arian ac eiddo, a themtasiynau o bob math.

***BBC Cymru Fyw – 20 Mai 2017***

# DRWS AGORED

**TYMOR 2016-2017**

***BORE IAU 22 Mehefin 2017***

**Festri'r Priordy**

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***


***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

# CODI'R TO





# Croeso i dudalen Ieuenctid@Priordy




**Calendr y mis**
Mehefin 4 - Ysgol Sul
Mehefin 11 - Sul Y Maer
Mehefin 18 - Sioe William Morgan
Mehefin 25 - Ysgol Sul
Gorffennaf 2 - Parti Diwedd Tymor

**Mabolgampau!**
Pob lwc i bawb! Cofiwch cyrraedd yn brydlon. Os oes angen crys T, PLIS rhowch wybod CYN y noson (a chyn y bore hwnnw os yn bosib!) Unrhyw grysau T sy ddim yn cael eu defnyddio mwyach i'w dychwelyd i Beti-Wyn os gwewlch yn dda. Diolch.


Arwyr
Ancora
Ap gemau Beiblaidd i blant bellach ar gael am ddim
Chwiliwch am 'Guardians of Ancora'
ac wedi lawrlwytho cliciwch 'Cymraeg'
App Store
Google play
kindle fire


chwarae am ddim
Mae ar yr Arwyr dy eisiau di!

# CODI'R TO











**Llinos Jones ……**



# OEDFA 'CODI'R TO'

***Lansio Prosiect Cerddorol newydd Y Priordy 14 Mai 2017***

***FEL*** y disgwylid o oedfa oedd yn lansio prosiect cerddorol croesawyd pawb i'r oedfa gan fand swynol y Priordy, gydag ambell i aelod newydd yn chwarae fel Jane ar y ffliwt.

Offrymwyd y weddi agoriadol a chroeso gan Beti-Wyn. Esboniodd y Gweinidog brosiect 'Codi'r To' i'r gynulleidfa. Prosiect arbennig iawn sydd yn annog talentau cerddorol y 'To' ifanc yn y Priordy a'u galluogi i feithrin y sgiliau hynny hyd eithaf eu gallu.

Daeth Tomos Huw i'r pulpud i ddarllen yr emyn "*Af i mewn i byrth fy Nuw.*" Dilynwyd yr emyn gan Syfi ynghyd â rhai o'r offerynwyr yn dangos eu doniau (Nicki, Lucy, Elis, Erin, ac Elin) yn darllen Salm 150, yn sôn am yr amryw ffyrdd o foli yr Arglwydd, yn cynnwys ffyrdd cerddorol.



Wedi darlleniad arbennig Syfi, cyflwynodd Trystan ac Osian yr ail emyn sef Emyn 57 i'r gynulleidfa, emyn gysylltiol iawn a'r darlleniad *"Molwch ar yr utgorn*".

Gwnaethpwyd y cyhoeddiadau gan Catrin ac yna'r casgliad gan Jona, Noa, Gruff a Caleb.  Yn ystod y casgliad dangosodd Lucy i bawb ei doniau arbennig ar y delyn hyfryd.

Ar ôl i Beti-Wyn ddiolch i'r casglwyr am eu gwaith a chyflwyno'r fendith dros y rhoddion, gwahoddwyd Ethan i'r pulpud i gyflwyno'r

emyn arbennig “*Yr Arglwydd yw fy Mugail*” i’r gynulleidfa, a chafwyd cryn lwyddiant yn canu’r emyn hwn ar ffurf tôn gron dan arweiniad ein Gweinidog.

Tua diwedd yr emyn daeth Steffan a Gwern, Megan a Meg i’r pulpud i gyflwyno’r prosiect, a phwysigrwydd cerddoriaeth i Gymru ac i gynulleidfa’r Priordy. Gweddïodd Megan a Meg a diolch i Dduw am y rhodd o gerddoriaeth a’i fudd a’i les i bobl, a’r cyfleoedd a



gawn. Anogodd y ddwy i ni werthfawrogi’n cyfleoedd o ystyried na chaiff eraill yn y byd sy’n mynd trwy gyfnodau anodd yr un cyfleoedd. Gofynnodd y ddwy yn eu gweddi i bawb gofio’r bobl hynny yn ein byd sydd angen ein cefnogaeth, ac yna arweiniodd y ddwy ohonynt ni yng Ngweddi’r Arglwydd.

Canodd y gynulleidfa yr emyn adnabyddus Emyn 147 “*Diolch Diolch Iesu*.” Wedi’r emyn gwahoddwyd y plant ifanc i’r blaen am sgwrs gyda Beti-Wyn am yr offerynau cerddorol a’u pwysigrwydd. Wedi “serenâd” bach gan ein Gweinidog ar y “*whistle pops”* gwahoddwyd y plant i gyd i ddewis offeryn taro, o’r maracas siâp ŵy neu’r symbalau dwylo i gyfeilio ynghyd â band y Priordy i Emyn 150 *“Diolch iti Iôr”*



Troddodwyd y fendith gan Beti-Wyn ar ddiwedd gwasanaeth bendithiol a buddiol arall ac aeth plant y Priordy o’r oedfa yn chwythu *“whistle pops”* yr holl ffordd adref!

***Llawer o ddiolch i Llinos – mam Noa a Nel yn ein Hysgol Sul – am yr adroddiad hwn***



## AGOR Y GAIR

### CYFRES ARALL ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD CYMRAEG YNG NGHAERFYRDDIN




*dan arweiniad*
Y Parchedigion Beti-Wyn James a Peter Cutts

Boreau Mercher 7, 14, 21, 28 Mehefin 2017 am 10.45 y bore
Canolfan yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Manylion pellach: ☎01267 237696 / 236658

*Noddir y Gyfres gan Raglen Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*



**SIOE WILLIAM MORGAN**
**Bore Sul 18 Mehefin 2017**
**Yn dilyn llwyddiant Sioe Mari Jones y y Festri y llynedd, bwriedir ymestyn cyfle i bawb y tro hwn fwynhau Sioe William Morgan yn y capel.**

**CAPEL Y PRIORDY, CAERFYRDDIN**



**CYMANFA FAWR PANTYCELYN**

**Nos Sul, 18 Mehefin 2017 am 7 o'r gloch**



**Cofio 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn**

**Arweinydd**
**John S Davies**



**Artistiaid Lleol**

**Rhaglen : £6**

**Elw tuag at Gronfa Organ Capel y Priordy**

**Dr Huw Michael...**

# CRWYDRO ARFORDIR A BRYNIAU'N GWLAD



Mae grŵp ohonon ni ddynion yn mynd ar daith gerdded bob mis o fis Ebrill i fis Tachwedd bob blwyddyn.

Dechreuodd yr arferiad ryw dair blynedd yn ôl fel ffordd i gadw cysylltiad â hen ffrindiau o'r saith degau. I ddechrau ffrind o Abertawe ac un o Aberystwyth a minnau yn cerdded rhai o lwybrau arfordir Sir Benfro. Erbyn hyn mae tua 15 ohonom ar y rhestr, ond wrth reswm dyw pawb ddim yn dod bob tro. Fel mae'n digwydd Cymry Cymraeg ydyn ni i gyd bron, a ma'n gyfle da i gymdeithasu yn Gymraeg am ddiwrnod ar ei hyd. Ryn ni'n cyhoeddi rhaglen teithiau'r tymor ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Fel rheol ryn ni'n dewis taith arfordir a bryniau am yn ail.

Erbyn hyn ryn ni wedi cerdded dros 90% o lwybr Sir Benfro ac wedi gwneud tua hanner llwybr Ceredigion hefyd. Mae'r teithiau gan mwyaf tua deg millitir o bellter – digon i lanw prynhawn ar ei hyd yn hamddenol cyn dod i ddiwedd y daith erbyn tua 6 y prynhawn. Ryn ni'n cael pryd o fwyd wedyn mewn Tŷ Bwyta neu Dafarn ar ddiwedd y daith




cyn troi am adref. Mae rhai yn tybio taw'r pryd bwyd yw uchafbwynt y diwrnod! Mae wedi bod yn gyfle i weld rhannau o'n gwlad odidog nad oeddwn wedi'u gweld o'r blaen , er enghraifft traethau Marloes a Barafundle, Llynnoedd Bosherston, Cromlech Carreg Sampson, Pwll-Deri, Tafarn Sinc a mwy.

Ar y cyfan ryn ni wedi bod yn lwcus iawn gyda'r tywydd ar y

diwrnodau ryn ni wedi’u dewis i gerdded, ar wahân i ddau eithriad nodedig. Y cyntaf oedd y daith o Drefin i Ben Caer ar hyd llwybr yr arfordir – 7 awr dda o gerdded. Dechreuodd fwrw glaw tua hanner ffordd ar hyd y daith. Doedd dim diben troi ’nôl, felly bwrw ’mlaen at



ddiwedd y daith gan feddwl ein bod yn nesáu pan welon ni oleudy Pen Caer yn dod i’r golwg dim ond i ni ganfod fod sawl milltir eto. Fe wlychon hyd ein crwyn yn y gwynt a’r glaw y diwrnod hwnnw, a mor falch oeddem i gael neidio i’r ceir a throi am y Mathry Arms am beint a phryd o fwyd cofiadwy. Y tro arall oedd pan gerddon ni gylchdaith 9 milltir a hanner o gwmpas Llyn y Fan Fach a Llyn y Fan Fawr y llynedd. Roedd tua naw ohonom wedi dod y diwrnod hwnnw ar ôl bod yn dilyn rhagolygon y tywydd yn y dyddiau’n arwain lan at ddydd y cerdded, ac wedi darbwyllo’n hunain nad oedd dim glaw i fod ar y dydd. Ac yn wir chawson ni ddim glaw, ond roedd y cymylau’n isel dros ben. Welon ni ddim mo llyn na bryn drwy’r dydd, dim ond prin gweld y llwybr dan ein traed! Ac roedd hynny yn ddigon anodd yn enwedig i ganfod y llwybr ’nôl o Lyn y Fan Fawr i’r man le dechreuon ni!. Nid yw’n lle i fynd pan fydd hi’n niwlog.



Yn sicr y bwyd yn yr Ŵydd a’r Gwcw yn Llangadog oedd yr uchafbwynt y diwrnod hwnnw. Wedi cael y fath brofiad y llynedd aethon ni ’nôl i Lyn y Fan i gerdded yr un llwybr eto eleni, flwyddyn yn union i’r diwrnod y llynedd, a rwy’n falch o allu dweud y gwelon ni’r ddau lyn a golygfeydd godidog y brynau eleni. Ac roedd y bwyd yn yr Ŵydd a’r Gwcw’r un mor flasus!

Mae croeso i unrhywun i ymuno â ni ar y teithiau cerdded. Does dim clwb, na thâl aelodaeth!

Y teithiau nesaf fydd:

| **Rhif** | **Dyddiad** | **Cylchdaith** | **Bwyd** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (Dydd Iau) | | |
| 1 | 15 Mehefin | West Angle/ Freshwater West Loop - 9 m | Hibernia Inn Angle |
| | | | |
| 2 | 13 Gorffennaf | Cader Idris (Minffordd) – 6 m | Cross Foxes, Brithdir |
| | | | |
| 3 | 17 Awst | Gŵyr : Caswell i Oxwich ~ 10m | Y Plough Llandeilo Ferwallt (Bishopston) |
| | | | |
| 4 | 14 Medi | Teifi Pools 9m | Y Talbot Tregaron |
| | | | |
| 5 | 12 Hydref | Llanrhystud i Aberystwyth | Aberystwyth |
| | | | |
| 6 | 16 Tachwedd | Pontneddfechan - cylchdaith 8m | Old White Horse Pontneddfechan |

Am fwy o fanylion cysylltwch â Huw ar ☎07528 719343 neu huwmichael@hotmail.com

**BLYCHAU YN Y CYNTEDD**





***COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD***

**DIOLCH YN FAWR**



Diolch i Beti-Wyn a Philip, Dewi Snelson, Tudur Dylan Jones, Catrin Haf Williams, Llinos Jones, Huw Michael a Michael O'Leary am y lluniau'r mis hwn

# PÊL MIS MEHEFIN
# BWNDEL BABANOD, PLANT DEWI

Dylai dod yn rhiant fod yn un o amseroedd gorau'ch bywyd. Fodd bynnag, i rai rhieni, dyma'r cyfnod anoddaf. Fe'ch gwahoddir yn ystod mis Mehefin i gefngoi apêl 'Bwndel Babanod' gan elusen Plant Dewi.

Nod y Bwndel Babanod yw gwneud popeth ychydig bach yn haws i rieni sy'n agored i niwed. Mae'r prosiect yn ceisio rhoi offer ac adnoddau i rieni i'w helpu â bywyd gyda baban newydd, er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i'r bychan. Allwch chi helpu?

Mae angen y canlynol ar y Bwndel Babanod.





**Gwisg Cysgu**
**Festiau**
**Gwisg Corff Cyfan**
**Sanau**
**Hetiau (Haf a Gaeaf)**
**Cardiganau**
**Bibiau**
**Mits Crafu**
**Cewynnau**
**Sgwariau Mwslin**
**Eitemau Ystafell Ymolchi**

Byddem yn ddiolchgar am unrhyw un o'r uchod. Gellir prynu ambell eitem am £1. Gallant fod yn eitemau newydd neu'n rhai ail law mewn cyflwr da. Bydd blwch yn y capel ar gyfer derbyn eich rhoddion.





**PWY YW PLANT DEWI?**

Plant Dewi yw prosiect plant Esgobaeth Tyddewi lle mae teulu'n bwysig. Credant mewn cryfhau teuluoedd, meithrin plant ac adeiladu cymunedau. Mae eu prosiectau ar gael er mwyn cynorthwyo rhieni, plant a phobl ifanc i dderbyn y gefnogaeth leol y maent ei hangen ledled De Orllewin Cymru yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## PEN-BLWYDD SALEM

Roedd yr achos yn 155 oed eleni ar 15 Mai ac yn dilyn gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Pryderi Llwyd Jones, Cricieth, cafodd yr aelodau wledd amser cinio yng Ngwesty'r Celt.

## CYMORTH CRISTNOGOL



Bu'r plant a'r bobl ifanc yn brysur yn codi pres drwy fynd ar daith feics noddedig ar Lôn Eifion a chynnal distawrwydd noddedig.

## NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA

Elli, Lleucu a Lowri fu'n arwain yr addoliad eleni ac fe rannwyd neges eleni a llynedd â'r addolwyr.

## PIZZA A THÂN

Trefnwyd noson Pizza a Thân i blant a phobl ifanc Salem a Seilo a'u ffrindiau. Ar ôl gwledd o bizzas, ymwelwyd â Gorsaf Dân y dre ond choeliech chi fyth, wrth i'r ymweliad ddechrau, dyma'r larwm yn canu a'r dynion tân yn gorfod mynd ar frys!



BANT A NI I’R BANC BWYD!



**BRECWAST MAWR WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL**







**GOFALAETH Y PRIORDY, CANA A BANCYFELIN**
**YNGHYD Â FFRINDIAU**
**YNG NGHAPEL HEOL AWST AC ELIM**

**Pererindod i**



**Soar y Mynydd**

**Dydd Sul 23 Gorffennaf 2017**

**Amserlen y dydd**

**Bws yn gadael y manau canlynol yn brydlon**

| | |
|---|---|
| Sgwâr Bancyfelin | 10.10yb |
| Cana: | 10:20yb |
| Heol Awst (Capel) | 10:30yb |
| Heol Y Prior (BBC) | 10.40yb |

Picnic yn Llyn Brianne: 12-15yp - 1.15yp
*pawb i ddod â phecyn bwyd)*

Oedfa yn Soar y Mynydd am 2
dan arweiniad Beti-Wyn:

Swper. Y White Hart, Llandeilo: 5yp ar gyfer 5.30yp

Adref tua 7.30yh

**Pris y dydd (yn cynnwys bws a bwyd) £20**

**Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib.**

**Diolch**

:

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**

**Nos Fercher 20 Medi 2017 am 7 yn y Festri**

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd***
***os gwelwch yn dda***

# ANRHYDEDD DEUBLYG



**Dewiswyd Steffan O'Leary yn Chwaraewr y Flwyddyn nid yn unig gan ei gyd-chwaraewyr ond hefyd gan ei reolwr yn Academi Dan 12 Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin.**

**Yn y llun:**
**Liam Thomas (Prif Sgoriwr y Clwb), Steffan (gyda'i dlysau) a Lee Surman (Capten y Clwb)**

**Llongyfarchiadau mawr i Steffan!**

**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**



**CYRSIAU MIC MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL – HAF 2017**

| | | |
|---|---|---|
| **Cwrs Ieuenctid** | **31 Gorffennaf – 4 Awst** | **Coleg y Bala** |
| **Souled Out** | **19 -24 Awst** | **Coleg y Bala** |

# Y DIWEDDAR JOHN REYNOLDS

Siom i bawb oedd dysgu am farwolaeth John Reynolds a fu farw'n dawel yn Ysbyty Glangwili ar 14 Mai 2017. Priod a thad, tad-yng-nghyfraith a thad-cu annwyl iawn a ffrind i bawb.

Deuai John yn wreiddiol o Donpentre, Y Rhondda, ac ymfalchïai yn ei wreiddiau. Dilynodd yrfa ym myd y gyfraith a daeth i Gaerfyrddin ym 1972 fel Prif Erlynydd i Heddlu Dyfed Powys. Ymgartrefodd y teulu yn y Gelli Werdd gan daflu eu hunain yn llwyr i fywyd Cymraeg a Chymreig yr ardal.

Ymhlith ei gyfraniadau i nifer o fudiadau a chymdeithasau lleol cofiwn yn arbennig am ei waith yn arwain rhieni Ysgol y Dderwen yn eu brwydr i gael adeilad newydd. Roedd addysg Gymraeg yn bwysig iddo a gwasanaethodd ar Bwyllgor Cenedlaethol Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) am nifer o flynyddoedd.

Daeth y teulu'n aelodau i'r Priordy lle bu John yn ffyddlon i bob agwedd ar fywyd yr eglwys. Gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr eglwys am nifer o flynyddoedd gan ysgwyddo tipyn o gyfrifoldeb yn ystod blynyddoedd pan oedd yr eglwys yn ceisio dod o hyd i'w chyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Ymddiddorai yng ngwaith yr eglwys yn fawr hyd y diwedd, ac roedd yn fawr ei gymwynas mewn llawer ffordd. Bu'n ffrind da i weinidogion.

Roedd colli Elisabeth saith mlynedd yn ôl yn ergyd fawr iddo ond llwyddodd I frwydro ymlaen, a hynny er gwaethaf ei iechyd bregus, gyda chymorth y teulu a chyfeillion agos.

Daeth cynulleidfa niferus iawn ynghyd i'r Priordy fore Llun, 22 Mai ar gyfer oedfa i ddiolch am ei fywyd a'i waith. Arweiniwyd yr oedfa gan ei weinidog gyda chymorth Y Parchedigion Desmond Davies, Wyn Vittle a Peter Cutts.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Elinor Wyn, Iwan Prys, Geraint Huw a'u teuluoedd.

Coffa da am ŵr arbennig iawn. Gwelwn eisiau ei gyngor a'i arweiniad, ei gwmni a'i hiwmor iach. Fe fydd yn rhyfedd iawn yn y Priordy heb John.

**Beti-Wyn**

# BLWYDDYN BYW Y BEIBL
# DARLLENIADAU MEHEFIN

| | |
|---|---|
| Wythnos 1: Y Pentecost | Actau 2: 1-21 |
| | |
| Wythnos 2 | Salm 8 |
| | |
| Wythnos 3: Sul y Tadau | Rhufeiniaid 5: 1-8 |
| | |
| Wythnos 4 | Mathew 10:24-39 |

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| MEHEFIN | | GORFFENNAF | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| David Lloyd | | David Lloyd | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin | 11<br>25 | Eira Jenkins<br>Janet Davies | Gorffennaf | 9<br>23 | Alwen Owen<br>Eira Phillips |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mehefin | 4 | Hwyr | Miriam Wyrwoll a Carys Morgans |
| Gorffennaf | 2 | Bore | Alwen Owen a Fiona Elias |

## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Mai / Mehefin | Glenys Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins |
| Gorffennaf / Awst | Nansi a Desmond Hayes |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin | 4 | Delyth G Davies | Gorffennaf | 2 | Luned Voyle |
| | 11 | Adrian Evans | | 9 | |
| | 18 | Rhodri Elias<br>Rhys Jones | | 16 | Glenys Thomas |
| | 25 | Meleri Llwyd O'Leary | | 25 | |
| | | | | 30 | Eirlys Jones |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mehefin** | Philip Jones | **Gorffennaf** | Chris Lloyd |

***FORE SUL***, 7 Mai, derbyniwyd Emyr Thomas yn aelod yn y Priordy o Philadelphia, Nantycaws. Mae'n ŵr i Eleri ac yn dad i Jac sy'n un o ffyddloniaid ein Hysgol Sul ac un o sêr y tîm mabolgampau. Croeso atom!

Ein dymuniadau da i Ros Williams, Hafan Tywi, Y Rhodfa, sy'n symud i Gartref Castell Tywi. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yno.



A chroeso i faban newydd. Ar 12 Mai, ganed Beca Mai, plentyn cyntaf i Emma a Richard, Tre-gwyr, a'r trydydd o wyrion i Danny a Gill Owens, Awel Tywi, Llangynnwr.

Bu rhai aelodau yn yr ysbyty'n ddiweddar, sef David Lloyd, Tina Charles a Rhian Mair Evans a chofiwn yn gynnes atynt.



Bu chwech o aelodau'r Ofalaeth, sef Fiona Elias, Catrin Heledd Jones, Wynne Jenkins. Dr Llinos Williams (Y Priordy), Rachael Garside (Cana) a Delme Thomas (Bancyfelin) yn trafod eu hoff emynau ar **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** yn ystod y mis a chafwyd rhaglen ddiddorol a bendithiol.



Dangoswyd gweithiau Wynne Jenkins ar **Prynhawn Da** a **Heno** yn ddiweddar a chafwyd cyfweliad diddorol rhyngddo a Nia Roberts yn **Stiwdio** ar **Radio Cymru**. Yng nghanol yr holl brysurdeb mae'n siŵr mai pleser mawr i Wynne oedd cael bod yn Stadiwm Aviva yn Nulyn i wylio'i hoff Scarlets yn trechu Munster yn rownd derfynol y Pro 12!



Gwelwyd yn y **Carmarthen Journal** lun o Adrian Evans a swyddogion eraill **Clwb Cinio Meibion Caerfyrddin** yn cyflwyno siec o £500 i Gronfa Sir Gâr Sioe Amaethyddol Cymru 2017



Clywsom fod Gruffudd Owen, aelod yn ein Hysgol Sul, wedi'i ddewis i Dîm Criced Cymru dan 11. Llongyfarchiadau mawr iddo a phob hwyl!



Bu'r Priordy yn rhan o dîm a fu'n darparu Brecwast Mawr yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Ioan. Diolch i bawb a fu'n helpu ac a gefnogodd y digwyddiad. Mae llun yn y Papur hwn.

Dymunwn yn dda i Peter Hughes Grififths sydd wedi'i ddewis yn aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gâr.  Bydd yn gofalu am Bortffolio newydd yn cynnwys Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Fe hefyd fydd Llysgennad y cynghorau tref a chymuned.  Nerth braich iddo wrth y gwaith!

Bu nifer o'n hieuenctid yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfod yr Urdd Penybont ar Ogwr, Taf ac Elái, a chlywn ragor am hyn y mis nesaf!

***AC I GLOI***, cyfarchion cynhesaf oddi wrth bawb yn y Priordy I'r Parchedig W J Edwards a Gwenda a fydd yn dathlu'u priodas aur ar I Gorffennaf 2017. Hyderwn y byddant yn nodi'r achlysur yn deilwng a danfonwn ein cofion at y teulu i gyd,



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst  i'n Gweinidog ☎ 01267   neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

## CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad a Chris a Hiw Lloyd, Bronwydd, ar golli tad Chris, sef William John Richards, Hendygwyn ar Daf, ar 10 Mai.  Meddyliwn hefyd am Ceri Haf, Elin Llwyd, Llew a Cai ac Ann, mam Chris,  a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn ag Eluned ac Emyr Jones, Glan Tywi, ar golli William David Thomas, Treparcau, Penybont, brawd Eluned ar 18 Mai. Fe'i hadnabyddid yn annwyl gan bawb fel 'Dai Trelech' a gwasanaethodd fel cynghorydd ar Gyngor Sir Gâr am flynyddoedd lawer iawn.

Meddyliwn am Huw a Carys, Ael-y-Bryn, ar golli Arthur Edwards, Llanuwchllyn, sef tad Huw. ar 22 Mai. Cydymdeimlwn hefyd âLowri a Lleucu ac â Cathi, ei briod, a'r teulu i gyd yn eu galar..




## MUNUD I FEDDWL

Bydd y Gweinidog ar *Munud i Feddwl* ar raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru  bob bore Gwener am 7.20  yn ystod mis Mehefin

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **4** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **11** | *Bore*<br>*Hwyr* | Oedfa Ddinesig gyda'n Gweinidog<br>Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda Tudur Dylan Jones | |
| | **18** | *Bore*<br>*Hwyr* | Sioe William Morgan. Cyfle i bawb ei gweld yn y capel. *Gweler y tu mewn*<br>Cymanfa Fawr Pantycelyn am 7 gyda John S Davies yn arwain ac Elin Llwyd yn unawdydd | |
| | **25** | *Bore*<br>*P'nawn* | Ein Gweinidog<br>Gŵyl Hirddydd Haf – Oedfa ym Mharc y Dref am 4.30 (wedi'i threfnu gan y Presbyteriaid) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **2** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **9** | *Bore* | Sul y Cyfundeb *Gweler y tu mewn* | |
| | **16** | *Bore* | A oes Heddwch? – Yn codi o hanes Hedd Wyn Oedfa yng ngofal yr Aelodau | |
| | **23** | *Bore*<br>*P'nawn* | Pererindod yr Ofalaeth. *Gweler y tu mewn* | |
| | **30** | *Bore* | Ein Gweinidog | |

## CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul CP : Cwrdd Plant - Dim Ysgol Sul HT – Hanner Tymor
WM – Sioe William Morgan SC – Sul y Cyfundeb

| MEHEFIN | | | | GORFFENNAF | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 11 | 18 | 25 | 2 | 9 | 16 | 23 | 30 |
| ✓ | ✓ | WM | ✓ | ✓ | SC | - | - | - |

**Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb**
**Rhydaman: 15-17 Mehefin 2017**
***Gweler Gwefan yr Undeb***